

Annwyl Rhiant/ Warcheidwad,

Hoffwn eich hysbysebu am uned o waith newydd sydd yn cael ei gyflwyno i flwyddyn 8 eleni yng ngwyddoniaeth fel rhan o'r cwricwlwm Newydd. Enw'r uned yw tyfu a newid, ac mae'n cynnwys y topigau canlynol:

Teitl	Crynodeb o gynnwys y topig
Rheolau'r uned	Byddwn yn gosod disgwyliadau ymddygiadol yr uned gan annog y disgyblion i fod yn empathetig a chwrtais gan ystyried for disgyblion yn mynd i deimlo'n wahanol am yr uned yma. Mae hyn yn iawn.
Geiriau profion sillafu	Geirfa am y profion sillafu.
Beth yw'r glasoed?	Trosolwg o beth yw'r glasoed a pryd fydd y glasoed yn digwydd. Mae pwyslais ar gofio bod pawb yn datblygu'n wahanol.
Aroglau newydd	Byddwn yn trafod hylendid personol ac yn trafod agweddau gwahanol o gadw'n lan.
Gwallt ymhobman	Bydd disgyblion yn dod i ddeall sut mae patrwm tyfiant gwallt yn wahanol i wrywod a benywod biolegol.
Plorod	Bydd y disgyblion yn dysgu beth sydd yn achosi plorod a sut orau i'w trin nhw.
Sut fydd corff bachgen yn newid?	Bydd disgyblion yn labeli'r newidiadau i gorff gwryw biolegol, sydd wedi'i achosi gan y glasoed.
Sut fydd corff merch yn newid?	Bydd disgyblion yn labeli'r newidiadau i gorff benyw fiolegol, sydd wedi'i achosi gan y glasoed.
Y system atgenhedlu	Bydd disgyblion yn dysgu mae system organau yw casgliad o organau sydd yn cydweithio. Bydd y disgyblion yn dysgu labeli'r organau sydd o fewn y system atgenhedlu.
Glasoed i'r bechgyn/ merched	Bydd y disgyblion yn dysgu yn fwy o fanylder am y newidiadau corfforol sydd yn digwydd o ganlyniad i'r glasoed i wrywod a benywod biolegol. Bydd y wers yn hollol ffeithiol.
Beth sy'n achosi'r glasoed?	Bydd disgyblion yn dysgu mae system organau yw casgliad o organau sydd yn cydweithio. Bydd y disgyblion yn dysgu labeli'r organau o fewn y system endocrin gan ddysgu pwysigrwydd hormonau i'r corff.
Celloedd rhyw	Yn draddodiadol, byddwn yn dysgu am gelloedd i flynyddoedd 7. Yma, byddwn yn dysgu am addasiadau'r gell sberm ac wy at ei swyddogaethau.
Sut mae babi'n cael ei wneud?	Bydd y disgyblion yn dysgu lle mae'r celloedd sberm ac wy yn cael eu cynhyrchu ac fe fyddan nhw yn deall beth yw swyddogaethau'r rhannau yn y system atgenhedlu.
Atgenhedlu	Bydd y disgyblion yn dysgu sut mae'r sberm a'r wy yn uno ac fe fyddan nhw yn dysgu am ystyr ffrwythloniad.
Perthnasoedd a chaniatâd	Trwy ddarllen am senarios gwahanol, bydd disgyblion yn ennill dealltwriaeth o beth yw perthynas da a drwg. Byddwn yn pwysleisio beth yw'r oed cyfreithiol am gael rhyw. Byddwn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd hunan-barch, aros, bod yn barod a gallu dweud 'na'.
Cael babi	Bydd disgyblion yn dod i ddeall pa resymau sydd gan oedolion dros ddewis cael babi. Byddant yn dod i ddeall beth yw gofal cyn-geni.
Dechrau bywyd newydd	Bydd disgyblion yn deall sut mae babi'n datblygu yn y groth.
Bywyd fel babi	Bydd disgyblion yn cymharu bywyd babi yn y groth ac ar ôl cael ei eni.
Yr enedigaeth a'r cyfnod wedyn	Bydd disgyblion yn dod i ddeall beth sydd yn digwydd yn ystod genedigaeth.
Ydy pobl gallu cael rhyw heb gael babi	Mae'r tudalen yma yn darparu gwybodaeth am ddefnyddio condom fel esiampl o ddull atal genhedlu. Nid yw'r wers yn cael ei gynnal fel gwrs ymarferol. Mae'r pwyslais ar aros tan eich bod chi yn barod a siarad ag oedolyn.
Dadansoddi data	I ymarfer rhifedd, mae'r disgyblion yn cymharu cyfnod beichiogrwydd, uchder terfynol a hyd fywyd nifer o rywogaethau. Fe fyddant yn tynnu graffiau cyn creu crynodeb.
Mislif	Bydd y disgyblion yn dysgu beth sydd yn achosi mislif ac yn dod i ddeall fod gwahanol ffyrdd o ddelio gyda'r mislif. Maen nhw yn edrych ar effaith amgylcheddol rhai cynnyrch mislif a chost defnyddio gwahanol gynnyrch.

Darllenwch eiriau'r disgyblion...	Bydd disgyblion yn trafod gwahanol scenarios sydd yn ymwneud a'r glasoed (e.e. cael mislif annisgwyl yn yr ysgol). Wrth wneud gwaith grŵp, fe fyddan nhw yn meddwl am ddatrysiadau. Ni yn annog empathi a charedigrwydd.
Dy deimladau	Mae'r glasoed yn gallu effeithio hunanddelwedd a hunanhyder. Bydd y disgyblion yn dysgu am rhai technegau meddylfryd bositif.
Creu cyflwyniad	Fel tasg asesu, bydd disgyblion yn creu cyflwyniad o'r rhestr. Gallant hefyd awgrymu topic arall. Mae'r rhestr yn eang ac yn cynnwys rhywbeth i bawb.

Mae'r uned wedi'i ysgrifennu'n ffeithiol, fel rydych yn gallu gweld uchod. Mae'r uned wedi cael ei drafod yn drylwyr gan yr adran Wyddoniaeth a'r uwch dîm arwain, ac wedi cael ei addasu nifer o weithiau. Rydym yn credu bod y topigau sy'n bresennol yn yr uned yna er mwyn addysgu'r disgyblion yn y ffordd cywir, wyddonol am y ffordd bydd eu cyrff a'u deimladau yn effeithio arnynt yn ystod eu harddegau. Mae'r uned yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi selio ar nifer o lyfrau addas o ran oedran, yn cynnwys:

- *Gwefr Gwyddoniaeth 7* gan Keith Johnson, Sue Adamson and Gareth Williams (ISBN 1856443531)
- *Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3* gan Paddy Gamon (ISBN 1856445232)
- *What's happening to me* gan Susan Meredith (ISBN 9780746069950)
- *The girls guide to growing up* gan Anita Naik (ISBN 9781526360182)
- *The boy's guide to growing up* gan Phil Wilkinson (ISBN 9781526360175)
- Adnoddau ar wefan Twinkl - gwefan ar gyfer plant cynradd a phlant blwyddyn 7 - 8.

Rydym yn deall y bydd rhai unigolion yn teimlo embaras wrth drafod rhai o'r topigau ac mae'r staff dysgu wedi cael trafodaethau am sut i drafod yr uned efo sensitifrwydd ac yn canolbwyntio ar y wybodaeth wyddonol.

Os oes gyda chi unrhyw gonsyrn, awgrymiadau neu gwestiynau am yr uned, plis cysylltwch â:

Aled Mason
Pennaeth Gwyddoniaeth a Cemeg yn Ysgol Gyfun
Gymraeg Bryn Tawe
MasonA37@hwbcymru.net

Rhiannon Williams
Cydylynydd CA3 Gwydoniaeth yn Ysgol Gyfun
Gymraeg Bryn Tawe
WilliamsR743@hwbcymru.net